# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 03.04.09

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Gwilym Owen Williams (Cadeirydd); John R. Jones; W. Tudor Owen

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Alun Evans (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd - Llygredd) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu),

**Ar gyfer cais Caernarfon Burger & Kebab House:**
**Ymgeisydd:** Mr. Mustapha Sari (Perchennog); Mr.Wyn Jones (cyfreithiwr)

**Ar gyfer cais yr Octagon, Bangor:**
**Ymgeiswyr:** Mr Ian Roberts, Rheolwr yr Octagon; Mr Nigel Blair, Cyfarwyddwr Cwmni Time Cyf.
**Gwrthwynebwr:** Mr Gwyn Hughes, Clerc, Cyngor Dinas Bangor

**Ymddiheuriadau:** yr Aelodau Lleol sef y Cynghorwyr Dewi Llewelyn a W. Roy Owen

**1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO Y CAERNARFON BURGER AND KEBAB HOUSE**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan berchennog y Caernarfon Burger and Kebab House i wyro'r drwydded bresennol ar yr eiddo i ganiatáu gwerthiant o fwyd poeth hyd at 03.30am bob dydd. Adroddwyd i dderbyn llythyr gan yr Heddlu yn gwrthwynebu'r cais ar sail nifer o achosion o drosedd ac anrhefn tu mewn a thu allan i'r eiddo dros gyfnod o amser; llythyr ar ran y Cyngor Tref yn gwrthwynebu'r cais ar sail amhariaeth sŵn; llythyr gan y Gwasanaeth Tân yn datgan dim gwrthwynebiad, a memo oddi wrth reolwyr Cynllunio Ardal Arfon yn nodi fod amod cynllunio'r eiddo yn cyfyngu oriau agor yr eiddo rhwng 9.00 y bore hyd at 12.00, sef hanner nos.

Dosbarthwyd copïau o drwydded gyfredol yr eiddo i'r aelodau.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Gwahoddwyd pob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Cyflwynwyd cais yr ymgeisydd ar ei ran gan ei gyfreithiwr, gan egluro bod busnes yr ymgeisydd wedi mynd i lawr yn ddiweddar oherwydd y system unffordd newydd yng Nghaernarfon. Eglurodd ymhellach fod cwsmeriaid sy'n dod allan o ddau glwb nos cyfagos am 2.00 y bore yn dod i'r siop i brynu bwyd, a heb ddeall pam nad oeddynt yn cael mynediad. O ganlyniad yr oedd llawer o bobl yn ymgasglu oddi allan, a phe byddai'r eiddo ar agor yn hwyrach credir y byddai cwsmeriaid yn gadael am adref ar ôl cael prynu bwyd. Ychwanegodd fod y perchennog yn fodlon cydweithio â'r heddlu bob amser, a bod camera cylch-cyfyng oddi mewn i'r eiddo a bod sefyllfa sbwriel tu allan yn gwella.

Wrth gefnogi sylwadau'r Heddlu, mynegodd y Cyd-lynydd Trwyddedu:-

- y trefnwyd cyfarfod Rhan 2 gyda deilydd y drwydded a bod cynllun gweithredu wedi ei gytuno. Serch hynny, 'roedd y cais am adolygu'r drwydded wedi ei gyflwyno cyn diwedd y cyfnod o dri mis, ar ôl hynny buasai'n rhaid adolygu'r cynllun gweithredu
- bod gan yr heddlu bryder am y cais oherwydd i 30 o achosion o anrhefn gael eu recordio ers 2005, er ei bod yn deg dweud bod naw o'r rhain wedi cael eu hysbysu gan y perchennog ei hun. Nodwyd yn arbennig achos difrifol yn ystod mis Ionawr eleni pan anafwyd plismones wrth ymateb i alwad oherwydd ffrae rhwng dau gwsmer.
- bod y niwsans mwyaf yn cael ei achosi gan gwsmeriaid sy'n ymgasglu tu allan
- bod yr heddlu'n anfodlon bod sbwriel yn cael ei adael tu allan i'r eiddo
- bod y perchennog yn torri amodau'r drwydded wrth werthu bwyd i gwsmeriaid ar ôl 2.00am
- bod y perchennog yn torri cytundeb gyda'r heddlu trwy beidio â gofalu bod person ar y drws i atal pobl rhag mynd i mewn wedi 2.00am

a bod yr heddlu yn gwrthwynebu'r cais yn wyneb yr holl bryderon a nodir.

Gadawodd yr ymgeisydd, cyfreithiwr yr ymgeisydd, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu a'r Rheolwr Trwyddedu y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus ac
- Amddiffyn Plant Rhag Niwed

a daethpwyd i'r penderfyniad isod. Pwysleisiodd y pwyllgor fod rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio gydag amodau'r drwydded ac i sicrhau bod yr eiddo wedi cau ar amser ac nad oedd cwsmeriaid i fod oddi mewn ar ôl hynny.

**PENDERFYNWYD:-**

1. **newid yr oriau i ddarparu bwyd hwyr yn y nos dan baragraff L ar y cais ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn i ddarllen:**
    - **23.00awr i 2.30awr**

2. **newid oriau agor o dan baragraff O ar y cais ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn i ddarllen**
    - **23.00awr i 2.30awr**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr ymgeisydd o fewn yr wythnos yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, ac i'w hysbysu o'r hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn tair wythnos i ddyddiad y llythyr hwnnw.

## 2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO YR OCTAGON, STRYD Y DEON, BANGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan gwmni rheoli'r Octagon i ymestyn yr oriau lle caniateir gwerthiant o alcohol ac adloniant rheoledig o 11.00 i 3.00 o ddydd Sul i ddydd Iau, a hyd at 4.00 ar ddyddiadau nodedig. Adroddodd i dderbyn e-bost yn ddiweddarach gan Gydlynydd Trwyddedu yr Heddlu yn nodi, yn dilyn ymgynghoriad â chyfreithwyr yr Octagon, i'r cais am ymestyn yr oriau ar y dyddiadau nodedig i 4.00 gael ei dynnu'n ôl. O ganlyniad, nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais.

Nid oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub wrthwynebiad i'r cais, na chwaith adran Safonau Masnach nac adain Cynllunio Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd llythyr gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn awgrymu amodau ychwanegol pe caniateir y cais.

Derbyniwyd llythyr ar ran Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu'r cais ar sail y byddai sŵn ychwanegol yn tarfu ar heddwch trigolion cyfagos, a llythyr gan yr Aelod Lleol ar ran y trigolion cyfagos yn mynegi'r un pryderon.

Dosbarthwyd copïau o drwydded gyfredol yr eiddo i'r aelodau.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Gwahoddwyd pob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth gefnogi'r sylwadau a gyflwynwyd mewn llythyr, adroddodd swyddog Iechyd yr Amgylchedd – Llygredd:–

- Nad oedd yr adran yn gwrthwynebu'r cais
- Bod y swyddogion yn bryderus y byddai sŵn o'r eiddo ar ôl 2.00 y bore i'w glywed yn fwy gan drigolion lleol gan fod lefel sŵn cefndirol ar ei isaf rhwng 2 a 6 y bore.
- Bod y swyddogion yn argymell ychwanegu cymal sŵn i'r drwydded, a chyflwynwyd rhestr o amodau priodol i sylw'r aelodau
- Nad oedd y swyddogion yn dymuno i amodau 1(vi) na 1(viii) gael eu cynnwys
- Ni dderbyniwyd unrhyw gŵyn am sŵn o'r eiddo ers 1996

Cyflwynodd Clerc Cyngor Dinas Bangor sylwadau ar ran dinasyddion Bangor ac ar ran yr aelod lleol yn datgan pryder am y potensial o fwy o sŵn yng nghanol nos pe caniateir y cais, gan ychwanegu bod y trigolion yn ffafrio cwyno trwy'r Cyngor neu'r aelod lleol yn hytrach na chysylltu â rheolwyr unrhyw eiddo'n bersonol.

Wrth gefnogi'r cais, adroddodd Rheolwr yr Octagon:-

- Fe wneir y cais o ganlyniad i ddymuniad cwsmeriaid i fod ar agor yn hwyrach ganol yr wythnos yn ogystal
- Mai'r bwriad yw agor tan 3.00 yn ystod tymor myfyrwyr yn unig, sef am 30 wythnos y flwyddyn
- Nid yw'r rheolwyr yn fodlon derbyn argymhellion Adran Iechyd yr Amgylchedd, ar sail bod gan yr eiddo fesurau atal sŵn ei hun
- Mae staff yn sefyll tu allan pan mae cwsmeriaid yn gadael ac mae rhybuddion safonol yn yr eiddo yn annog pobl i adael yn ddistaw

- Dwy gŵyn yn unig a dderbyniodd Rheolwr yr eiddo, ynghylch tacsis tu allan i'r eiddo. Bellach mae tacsis yn codi cwsmeriaid mewn safle arall

Gadawodd yr ymgeiswyr, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu, y Rheolwr Trwyddedu, y Swyddog Iechyd yr Amgylchedd – Llygredd a'r gwrthwynebwr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried y pedwar egwyddor o fewn y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus ac
- Amddiffyn Plant Rhag Niwed

Wrth ddod i benderfyniad, ystyriodd yr Is-bwyllgor farn yr ymgeisydd yn ogystal â phryderon y trigolion lleol a'r amodau argymhellir gan Adran yr Amgylchedd.

**PENDERFYNWYD caniatáu fel a ganlyn:**

1. **Newid oriau gwerthu alcohol o dan baragraff M y cais ar ddydd Mercher i ddarllen:**
    - **11.00awr i 3.00awr**

2. **I newid oriau agor o dan baragraff O y cais ar ddydd Mercher i ddarllen:**
    - **11.00awr i 3.30awr**

3. **Mae'r amodau perthnasol i sŵn, dirgryniad, goleuadau ac aroglau yn peri niwsans wedi eu hamlinellu mewn atodlen a baratowyd gan Adran Iechyd yr Amgylchedd, i'w cynnwys fel amod o'r drwydded, gan hepgor cymalau 1(vi) ac 1(viii).**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr ymgeisydd o fewn yr wythnos yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, ac i'w hysbysu o'r hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn tair wythnos i ddyddiad y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.45pm